| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Caffael Gwasanaethau Adeiladu - Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am waith dilynol Archwilio Mewnol o Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013 ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) Mawrth 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'n hadroddiad dilynol ar gyfer Caffael Gwasanaethau Adeiladu gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi'u gwneud.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiad dilynol Archwilio Mewnol.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar Gaffael y Gwasanaethau Adeiladu yn Hydref 2013 a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd 'isel', gyda chynllun gweithredu a oedd yn cynnwys 11 o feysydd i'w gwella. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod *".. cryn le i wella*. *Trwy ddatblygu ymagwedd strategol, mae potensial i wneud caffael gwaith adeiladu yn llawer mwy effeithlon drwy symleiddio prosesau a'u gwneud yn fwy cyson, gyda'r fantais o ddileu dyblygu."*

Soniodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru â gwaith cynnal a chadw adeiladau ysgolion, gan ddod i'r casgliad *"bod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau caffael presennol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i reolau gweithdrefn contract presennol."* Roedd Cynllun Gweithredu Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys chwe maes i'w gwella.

Mae'r cynllun gweithredu dilynol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn cynnwys yr holl gamau gweithredu oddi wrth y gwasanaeth Archwilio Mewnol a chynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n dangos diffyg cynnydd hyd yma o ran cyflawni'r gwelliannau a nodwyd gan y gwasanaethau perthnasol o fewn yr amserlen.

Dim ond 2 o'r 17 o risgiau sydd wedi cael sylw yn llawn, gydag eraill yn mynd rhagddynt yn eu camau amrywiol. Yn benodol:

- nid oes strategaeth gaffael yn ei lle;
- mae cytundebau fframwaith wedi eu gohirio am sawl mis o'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno;
- mae cyflwyno e-ffynonellu wedi ei ohirio am flwyddyn o'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno; a
- Ni chytunwyd ar reolau gweithdrefn contractau diwygiedig (CPRs) a byddant yn cael eu gohirio am flwyddyn o'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno. Mae hyn yn effeithio ar weithredu nifer o gamau gwella eraill.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.